DEDDF PRIFFYRDD 1980

Gorchymyn Gwyro Llwybr Cyhoeddus
(Llwybr Troed Cyhoeddus Rhif 10 yng Nghymuned Bronington)
Bwrdeistref Sirol Wrecsam 2005

Cadarnhawyd y Gorchymyn uchod, a wnaed ar 24ain Awst 2005 gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, dan Adran 119 o Ddeddf Priffyrdd 1980.

Effaith y Gorchymyn fel y'i cadarnhawyd yw gwyro'r Llwybr Troed Cyhoeddus a ddisgrifir yn Rhan 1 yr Atodiad i'r Rhybudd hwn i linell a ddisgrifir yn Rhan 2 yr Atodiad i'r Rhybudd hwn.

Mae copi o'r Gorchymyn a map y Gorchymyn wedi eu gosod yn Neuadd y Dref, Wrecsam a Swyddfa Bost, Ffordd Ellesmere, Bronington, Eglwys Wen, Sir yr Amwythig a gellir eu gweld yno am ddim yn ystod oriau swyddfa/agor arferol. Gellir cael copïau o'r Gorchymyn a'r map am ddim o Neuadd y Dref, Wrecsam.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 25ain Awst 2005, ond os teimla unigolyn ei fod wedi ei dramglwyddo gan y Gorchymyn neu'n dymuno cwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaeth ynddo ar y sail nad yw o fewn y pwerau a roddir gan Ddeddf Priffyrdd 1980 fel y'i diwygiwyd neu ar y sail na chydymffurfiwyd ag unrhyw ofyn dan y Ddeddf neu unrhyw reoliad arall a wnaed ganddi, gellwch ymgeisio i'r Uchel Lys i'r pwrpas hwn, dan baragraff 2 o Atodiad 2 i'r Gorchymyn fel a gynhwysir gan baragraff 5 o Atodiad 6 i'r Gorchymyn o fewn chwe wythnos o 25 Awst 2005.

ATODIAD
Rhan 1
Disgrifiad o safle'r llwybr neu'r ffordd bresennol

Y rhan honno o Lwybr Troed Cyhoeddus Rhif 10 yng nghymuned Bronington ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam o ymyl y briffordd ar Lôn Llys Newydd ar gyfeirnod grid 34898 33977 i gyfeiriad gorllewinol yn gyffredinol am oddeutu 86 metr i ymyl adeiladau fferm ar gyfeirnod grid 34890 33978 ac yna i gyfeiriad gogledd-orllewinol yn gyffredinol ar draws y cae am oddeutu 196 metr at ffin y cae ar gyfeirnod grid 34874 33989, ac yna i gyfeiriad gorllewinol – gogledd-orllewinol ar draws y cae am oddeutu 146 metr at Lwybr Rhif 11 ar gyfeirnod grid 34862 33995, cyfanswm hyd o 428 metr o led amhenodol fel y dangosir gan linell ddu drom ddi-dor rhwng pwyntiau A, B, C ac D ar y map sy'n atodedig i'r Gorchymyn hwn

Rhan 2

Disgrifiad o safle'r llwybr neu'r ffordd newydd

Llwybr Troed Cyhoeddus sy'n llwybr y mae gan y cyhoedd hawl tramwy arno ar droed yn unig, sydd ddim llai na 1.8 metr o led o ymyl y briffordd ar Lôn Llys Newydd ar gyfeirnod grid 348 898 33977 i gyfeiriad de-orllewinol yn gyffredinol am oddeutu 33 metr i bwynt ar gyfeirnod grid 34896 33974, ac yna i gyfeiriad gorllewinol yn gyffredinol am oddeutu 85 metr i ffin y cae ar gyfeirnod grid 34888 33975, ac yna i gyfeiriad gogledd-orllewinol ar draws y cae am oddeutu 190 metr at ffin y cae ar gyfeirnod grid 34873 33986, ac yna i gyfeiriad gogledd-orllewinol ar draws y cae am oddeutu 140 metr i'r gyffordd â Llwybr Troed 11 a 10 ar gyfeirnod grid 34862 33995 am oddeutu 447 metr fel y dangosir gan linell ddu drom doredig rhwng pwyntiau A, E, F, G ac D ar y map sy'n atodedig i'r Gorchymyn hwn.

Dyddiedig y 25ain diwrnod hwn o Awst 2005.

Trevor Coxon
Prif Swyddog Cyfraith a Gweinyddiaeth
Neuadd y Dref
Wrecsam
LL11 1AY